Darlith 6
21ain o Dachwedd 2019

Rhoi Adborth





Estyn

https://www.youtube.com/watch?v=YD1e1T0SIKo

Gwaith ymchwil

https://www.youtube.com/watch?v=LjCzbSLylwI





Hwb News
@HwbNews

Asesu Ysgol Gyfan


Beth yw pwrpas marcio?

Mae marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac o fewn fframwaith penodol, yn hollbwysig. Dylai pob athrawes / athro fod yn ymwybodol o'r rhesymau dros farcio. Mae'n rhan bwysig o'r asesu dyddiol o waith disgyblion ac yn rhoi gwybodaeth i'r disgybl am y cynnydd a wnaeth yn ei waith.

Dylai'r marcio bob amser fod yn bositif ac yn ganllaw i gynorthwyo'r disgybl i symud ymlaen yn hyderus. Dylid marcio gwaith disgybl gan gofio natur y disgybl, y dasg a'r targedau a osodwyd iddo / iddi. Dylai'r disgyblion fod yn ymwybodol o'r targedau a'r disgwyliadau cyn dechrau'r gwaith e.e. ysgrifennu mewn 'genre' penodol, atalnodi'n gywir, sillafu geiriau penodol yn gywir, defnyddio ansoddeiriau / adferfau / idiomau'n effeithiol a.a. Nodwyd nod y wers sydd yn glir ar ddechrau pob tasg er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod yr hyn rydym yn chwilio wrth farcio.

http://www.ysgolyfenni.co.uk/downloads/polisi-marcio.pdf

Dulliau Asesu



- Cyfle i drafod


Eich profiadau chi.



Pwrpas adborth ydy:

GWNEUD I DDYSGWR FEDDWL	HELPU'R DYSGWR I WERTHUSO'I WAITH EI HUN	CANMOL YMDRECH
CYFEIRIO AT Y DASG A'R MEINI PRAWF LLWYDDIANT	HELPU'R DYSGWR I DDEALL Y GWAITH YN WELL	HELPU'R DYSGWR I WELLA'I WAITH
DANGOS I'R DYSGWR SUT I SYMUD YMLAEN	DANGOS BOD YR ATHRO / ATHRAWES YN PARCHU'R GWAITH	TYNNU SYLW AT LAWER O GAMGYMERIADAU

Enghreifftiau o bolisïau marcio



Marcio

Dylai adborth cadarnhaol a chyson gryfhau cymhelliant y disgyblion. Wrth farcio ni ddylid gor-gywiro, mae hyn yn tanseilio hyder yr unigolyn. Rhaid canolbwyntio ar gywiro rhai gwallau ar y tro. Rhaid meddwl felly am y gwallau yn nhrefn blaenoriaeth ac yn unol â gallu'r disgybl. Gellir defnyddio llythrennau neu symbolau yn ymyl y ddalen neu ar y gwaith ei hun sy'n ddealladwy i'r disgyblion ac yn unol â pholisi marcio'r ysgol/adran.

Wrth ddrafftio gwaith gall disgyblion farcio eu gwaith unigol ynghyd â gwaith eu cyfoedion yn adeiladol. Bydd hyn yn eu gwneud yn llai dibynnol ar yr athro/athrawes ac yn meithrin cyfrifoldeb dros gywirdeb ieithyddol. Bydd y disgybl felly yn fwy tebygol o sylwi ar y cywiro. Anogir iddynt wneud hyn drwy ddefnyddio pensil.

Côd Marcio

S /	**Cam sillafu (geiriau syml a thermau pynciol)**
	Atalnodi (atalnod llawn, priflythrennau)
P //	**Paragraff newydd**
Uwcholeuo	**Ail ysgrifennu un frawddeg flêr**
Cyst /	**Gwall cystrawen**
Tr	**Cam dreiglad: gosod bwa rhwng dau air i ddynodi'r treiglad, e.e. fy gwaith**
( )	**Berf anghywir**
I.S.	**Idiom Saesneg**
G.S.	**Gair Saesneg**
✓✓	**Sylwadau da**

Allan o lyfr
Gair Yn Gymorth: Llawlyfr I Ddarpar Athrawon Cyfrwng Cymraeg (2014)

Arferion Da





"Effective *feedback* occurs during the learning, while there is still time to act on it."

-Jan Chappuis

Yn ôl Estyn:

(Adroddiad Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion Mawrth 2008)
https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/caur-bwlch-rhwng-cyrhaeddiad-bechgyn-merched-mewn-ysgolion-mawrth-2008

A5 gwneud defnydd gwell o ddulliau dysgu, addysgu ac asesu sy'n apelio'n benodol at lawer o fechgyn. Mae'r rhain yn cynnwys darparu:

- mwy o gyfleoedd i drafod;
- mwy o amrywiaeth mewn gwersi, gan gynnwys gweithgareddau cystadleuol;
- targedau a nodau tymor byr; ac
- amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys defnyddio TGCh, a chlybiau gwaith cartref a medrau astudio;

Sut i gyflwyno adborth ar lafar?



Sut mae rhoi adborth yn y dosbarth yn gallu dylanwadu ar gyrhaeddiad bechgyn a merched?

GCSE results: Gender gap widens as girls pull further ahead

Eleanor Busby
25th August 2016 at 09:45

Share this



Exams and assessment | GCSE | Secondary



Bright girls do worse than boys at maths



Boys have more confidence in maths, a report found
PHIL BOORMAN/CORBIS



What are the effects of gender on educational attainment?

Primary school boys fail to close gap with girls



Boys are being failed by our schools


Many teenage boys fail test grade

Poor white boys 'most likely to fail school'

Almost half of all boys fail to meet targets for writing

Why aren't boys doing as well at school?


Ffocysi ar adran o'r gwaith yn hytrach nag edrych ar y darlun mawr.



Strategaeth y blwch melyn

Manteision ac anfanteision?

Meini Prawf Llwyddiant



☺ **Nod y wers**: ysgrifennu gweddi

Meini Prawf Llwyddiant	Hunan asesiad	Asesiad athro
• Dechrau gyda : Gweddiwn,	✓	✓
• Defnyddio'r geirfa: O Dad / Arglwydd fel agoriad	✓	✓
• Dweud diolch am bobl sy'n ein helpu	✓	✓
• Gofyn am gymorth (help)	✓	✓
• Gwneud y weddi yn bersonol i chi	✓	✓
• Gorffen gydag : Amen	✓	✓


Gweddiwn,

O Dduw,
diolch am y doctoriaid gofalgar sydd yn gweithio yn yr ysbytai,
diolch i'r ffermwyr sydd yn tyfu cnydau i ni fwyta,
diolch i'r athrawon gweithgar sydd yn dysgu ni llawer am bobeth,
diolch am ffrindiau caredig a chyfeillgar.
Helpa ni i fod yn dda, yn garedig ac i wneud ein gorau glas.
A helpa pobl yn ein teulioedd sydd yn sal neu yn unig a cadw nhw yn ddiogel.
Diolch am ofalu am tadcu Eddie pan oedd yn ysbyty Glangwili.
Amen.

★ Dyma weddi arddechrau sy'n ddiddorgar am betha a phobl sy'n bwysig i ti.
★ M.P. ti wedi ei ddilyn yn llwyddiannus ac nwyt ti hefyd wedi disgrifio pobl - doctoriaid gofalg athrawon gweithg
★ Ymhelaethu ar yr hyn sydd ganddot - mwy o fanylion.
teuluoedd x3 • teuluoedd • teuluoedd • teuluoedd

https://www.j2e.com/?id=WTBxUFhxb3RlVWtuR3F0Vg==&wp&blog=2&revision=3&noEdit=1&bsv=2&signature=9a1ij37k9ynp3wQmclG4HTTrtDo%3D

Rhoi aborth i'r dosbarth cyfan



Tasgau Cystadleuol

Mae cystadleuaeth iach yn gallu codi cyrhaeddiad.





Kahoot!

Pa bwyntiau ieithyddol sydd angen eu hystyried wrth gyflwyno adborth



Sut mae defnyddio cwestiynau yn effeithiol?



RHAI CWESTIYNAU

Fedri di ffeindio ...? Fedri di gywiro ...? Fedri di ychwanegu ...? Fedri di wella ... (e.e. dechrau'r stori) ?	
Pa ran ydy'r rhan orau? Pam?	
Beth ydy dy farn am dy waith?	
Pam ydw i'n dweud fod hwn yn waith da?	
Sut gallwn ni wella'r gwaith?	
Beth oedd y meini prawf llwyddiant?	
Wyt ti wedi asesu dy waith yn erbyn y meini prawf llwyddiant?	
Beth oedd y sgiliau roeddet ti'n ymarfer?	
Beth ydy dy gamau nesaf?	

Cywiro a rhoi adborth

- Yn eich barn chi, beth oedd meini prawf llwyddiant y dasg hon?
- O ystyried hyn, ysgrifennwch sylwadau i ymateb i'r meini prawf llwyddiant.
- Ystyriwch pa strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu gallech chi eu defnyddio yn y dosbarth ar gyfer ymateb i straeon?
- Edrychwch eto ar y sampl gwaith. Oes gwallau eraill yn y stori?
- Beth ydyn nhw?
- Sut byddwch chi'n cywiro'r rhain?

Adroddiadau





Rhan C: Adroddiadau Ysgol

Mae adroddiad blynyddol y disgybl yn rhoi crynodeb cyraeddiadau'r plentyn i rieni ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae'n galluogi rhieni i weld yn glir y cynnydd a wnaethpwyd gan eu plentyn a beth y gellir ei wneud i hybu'r cynnydd yna yn y dyfodol gan fod pob maes dysgu craidd yn darparu targed ar gyfer gwelliant pellach fel "cam nesaf".

Mae gan yr adroddiad rôl hollbwysig wrth helpu rhieni i ddeall gwaith yr ysgol a chryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Y nod yw rhoi sylwadau clir a chraff am gynnydd y plentyn , gan gynnwys targedau ar gyfer dysgu yn y dyfodol, i helpu rhieni a disgyblion ac hefyd athrawon a fydd yn eu derbyn i hyrwyddo rhagor o welliant.

Cyfrifoldeb athrawon dosbarth ydy ysgrifennu sylwadau am bynciau yn adroddiadau pob disgybl yn eu dosbarth a sylwadau am gynnydd yn gyffredinol. Gallai'r sylwadau hyn gynnwys sylwadau am

- ymddygiad y disgybl
- cyfraniad y disgybl i fywyd yr ysgol
- unrhyw gyflawniadau arbennig yn ystod y flwyddyn ysgol

Amrywiwch eich geirfa a defnyddiwch ystod o ansoddeiriau.

tawel	swnllyd
cyflym	gwarthus
taclus	gwyllt
gwreiddiol	anniben
gwych	digywilydd
bendigedig	anystywallt
arbennig	amhosibl
ardderchog	anghwrtais
rhagorol	blêr
deallus	amharod
parod	anfoesgar
syml	siaradus
penigamp	ffwdanus
ymroddgar	creulon
diwyd	peryglus
cwrtais	drygionus
cyfeillgar	annerbyniol
cymwynasgar	diflas
serchog	trychinebus
cyffrous	trafferthus
gwerthfawr	afreolus
allblyg	chwithig
mewnblyg	annifyr
annibynnol	aflonydd
dibynadwy	anhrefnus

Enw : Mared Llywelyn **Dosbarth** : Teifi (Blwyddyn 5 a 6) **Tymor** : Y Nadolig

Gweithgareddau'r tymor:

- Thema'r tymor - **Arwyr**
- Astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf – arwyr o Gymru megis Hedd Wyn
- Taith i gofgolofn rhyfel y dref – cynnal gwasanaeth coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf
- Prosiect Dosbarth – llunio arddangosfa pabi coch
- Ymweliad gan Shane Williams – trafod ei yrfa rygbi a chynnal gweithdy rygbi

Cryfderau – darllen, cydweithio ag eraill
Angen eu targedu – mathemateg pen, atalnodi

Enw : Iestyn Gwyn **Dosbarth** : Tywi (Blwyddyn 1 a 2) **Tymor** : Y Nadolig

Gweithgareddau'r tymor:

- Thema'r tymor – **Albwm y Teulu**
- Trafod pwy sydd yn ein teulu – llunio coeden deuluol, a'i chyflwyno i'r dosbarth
- Creu portread o aelod o'r teulu
- Darllen llyfr "Fy nheulu gwallgof i" gan Mari Parri
- Sgiliau rhifedd – cronoleg a mesur amser

Cryfderau – cyfrannu at drafodaethau dosbarth, galw tablau i gof (2, 5 a 10)
Angen eu targedu – llawysgrifen, canolbwyntio ar gyfarwyddiadau